# 4.0 Gwirfoddolwyr

## Recriwtio, Dethol a Chynefino Gwirfoddolwyr

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Recriwtio
3. Dethol
4. Cynefino
5. Geirdaon
6. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

### Pam cynnwys gwirfoddolwyr?

Cyn cynnwys gwirfoddolwyr, mae'n werth treulio ychydig o amser yn ystyried sut i'w cynnwys orau yn eich mudiad.

Rhaid i fudiad nodi tasgau sy'n briodol i'r gwirfoddolwyr eu cyflawni, cyn y broses recriwtio a dethol.

Gan nad yw gwirfoddolwyr yn cymryd lle gweithwyr cyflogedig, dylid eu hystyried fel rhai sy'n ategu rolau'r staff presennol, ac felly'n dod â gwerth ychwanegol i'r mudiad.



Llun: Menyw yn cael ei chyfweld]

Mae cynnig cyfleoedd cynhwysol yn helpu i gyrraedd gwahanol bobl o gefndiroedd amrywiol. Bydd creu diwylliant sy'n mynd ati i annog cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn helpu i gyrraedd grwpiau newydd o bobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn eich mudiad ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi pwy fydd yn gyfrifol am wirfoddolwyr er mwyn sicrhau y bydd gwirfoddolwyr yn cael eu cefnogi'n llwyr ac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y mudiad. Mae gwaith ymchwil drwy'r arolwg 'Time Well Spent' yn cydnabod fod y ffordd y mae mudiadau'n ymateb i wirfoddolwyr yn effeithio ar brofiadau cyffredinol y gwirfoddolwyr o wirfoddoli.

**Dolen Allanol**

Dolen i'r arolwg 'Time Well Spent', arolwg cenedlaethol ar brofiad gwirfoddoli ledled y DU.

[Arolwg Time Well Spent (Saesneg yn unig)]

Ystyriwch:

- Pa lefel o gynefino a hyfforddiant fydd ei hangen ar y gwirfoddolwr er mwyn ei gynorthwyo orau yn ei rôl?
- A fydd y cyfleoedd y byddwch chi'n eu darparu yn galluogi'r gwirfoddolwr i ddatblygu sgiliau newydd yn ogystal â defnyddio'r galluoedd, yr wybodaeth a'r profiadau sydd ganddo eisoes?
- Pa dasgau ydych chi'n disgwyl iddo eu cyflawni?
- Sut gallwch chi ei gefnogi orau i ddod â'i brofiad bywyd a'i wybodaeth i'r mudiad?
- Pa mor hyblyg allwch chi fod o ran rhoi cyfle i wirfoddolwyr lunio'u rolau?

# Recriwtio a Hysbysebu

Unwaith y bydd gennych syniad eglur o'r gwahanol gyfleoedd y gallwch chi eu cynnig i wirfoddolwyr, y cam nesaf yw meddwl am y canlynol:

- Pa fath o unigolyn fyddai â diddordeb yn y rolau hynny?
- A fydd y cyfleoedd yn apelio at grwpiau amrywiol o bobl? Os na, pa gamau allwch chi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn?
- Sut byddwch chi'n eu denu i'ch mudiad
- Sut gallwch chi hyrwyddo'r cyfleoedd gwirfoddoli mewn modd a fydd yn ysbrydoli'r gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'ch mudiad?
- Beth allwch chi ei wneud i alluogi pobl i gael blas ar wirfoddoli yn eich mudiad cyn ymrwymo?
- Sut gallwch chi wneud eich cyfleoedd gwirfoddoli yn hygyrch?

## Ble i hysbysebu?

- Platfformau cyfryngau cymdeithasol
- •Cofrestru ar wefan Gwirfoddoli Cymru
- Ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr addysg eraill
- Recriwtio cymheiriaid
- Adeiladau cyhoeddus, fel canolfannau gwaith
- Meddygfeydd
- Ffenestri siopau
- Bysiau
- Teledu, papurau newydd, radio lleol
- Ar lafar
- Lleoliadau cymunedol lleol, fel canolfannau cymunedol neu lyfrgelloedd
- Eich gwefan
- Safleoedd recriwtio

## Ble i recriwtio?

Gall rhai o'r dulliau recriwtio hyn ddigwydd ar fformat digidol neu rithwir, meddyliwch sut gallwch chi fynd ati i recriwtio gwirfoddolwyr mewn gofod ar-lein

- Siaradwch â'ch canolfan gwirfoddoli lleol
- Ewch i siarad â grwpiau â diddordeb a rhoi cyflwyniadau iddynt
- Ewch i ymweld â grwpiau o gymunedau amrywiol a chael sgwrs am sut gallant gymryd rhan
- Ceisiwch annog a chefnogi cyn-fuddiolwyr i wirfoddoli
- Ymgysylltwch â digwyddiadau cymunedol eraill sy'n denu nifer fawr o bobl e.e. agorwch stondin mewn marchnadoedd, ffeiriau a charnifalau
- Ewch i ffeiriau gyrfaoedd a recriwtio
- Platfformau cyfryngau cymdeithasol
- Ymgysylltwch â grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd

## Wrth gynllunio gwybodaeth ar bapur neu ar-lein, efallai yr hoffech chi ystyried y canlynol:

- Cadwch y neges yn syml
- Gwnewch yn siŵr ei fod yn cyfleu natur y cyfle
- Ceisiwch baratoi deunydd y gall eich cynulleidfa darged uniaethu ac ymhél ag ef
- Dyluniwch bosteri a thaflenni hygyrch sy'n dal sylw pobl
- Peidiwch â defnyddio jargon
- Cyflwynwch y deunyddiau yn iaith/ieithoedd y gymuned
- Cynhyrchwch ddeunyddiau amrywiol a fydd yn annog gwirfoddolwyr o bob cefndir

## Gwnewch argraff gyntaf gywir

Er bod eich mudiad yn chwilio am wirfoddolwyr a fydd yn helpu'ch mudiad neu'ch prosiect i ffynnu, mae'r gwirfoddolwr yn chwilio am fudiad sy'n gwerthfawrogi'r amser y mae'n barod i'w gynnig.

Sicrhewch eich bod yn gallu dangos parch tuag at y rheini sy'n cysylltu â'ch mudiad i gynnig eu hamser drwy sicrhau bod eu galwadau'n cael eu hateb, eu negeseuon ffôn yn cael eu dychwelyd, a'u negeseuon e-bost yn cael eu hateb. Os oes oediadau yn eich proses recriwtio gwirfoddolwyr, y peth gorau i'w wneud yw egluro hyn i'ch gwirfoddolwr ar y dechrau.

## Disgrifiadau rôl

Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r broses gynllunio o ran pennu pa rôl fydd gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn eich mudiad.

Cyn llunio [disgrifiad rôl], efallai yr hoffech ystyried y cwestiynau canlynol:

- Pa dasgau sydd gennych chi y mae arnoch angen i wirfoddolwyr eu cyflawni?
- Sut gellid cyfuno'r tasgau hyn i greu rôl wirfoddol?
- Faint o hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth allech chi eu rhoi?
- A oes lle i unrhyw rôl wirfoddol ddatblygu?
- Pa sgiliau, priodweddau a phrofiad fyddai eu hangen ar wirfoddolwyr yn barod?

## Dethol

Bydd y broses ddethol y byddwch chi'n ei mabwysiadu'n dibynnu ar eich mudiad a'r gweithgareddau y mae gwirfoddolwyr yn eu cyflawni o'i fewn. Mae angen i bob mudiad lunio system a fydd nid yn unig yn briodol i'w hanghenion, ond na fydd chwaith yn cyflwyno rhwystrau diangen i ddarpar wirfoddolwyr. Ystyriwch sesiynau blasu er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl gymryd rhan.

Dylai'r broses ddethol fod yn broses ddwy ffordd. Dylai alluogi'r mudiad i benderfynu ar addasrwydd darpar wirfoddolwyr, a galluogi gwirfoddolwyr i benderfynu a ydynt yn teimlo'u bod yn addas i'r mudiad.

Os nad yw gwirfoddolwyr yn addas i'r cyfleoedd gwirfoddoli a ddewiswyd ganddynt ac nad yw'n bosibl dod o hyd i gyfle arall iddynt, mae gan eich mudiad gyfrifoldeb i fod yn onest.

---

Dylid dilyn yr egwyddorion ar gyfer arferion recriwtio a rheoli gorau wrth ymdrin â'r holl staff a gwirfoddolwyr y mae eu swydd yn ymwneud â bod mewn cysylltiad gwirioneddol a mynych â grwpiau agored i niwed (yr holl blant a/neu oedolion ag anghenion gofal a chymorth oherwydd oedran, salwch neu anabledd).

Os yw'r rôl yn ymwneud â gweithio gydag unigolion neu nifer o bobl yr ystyrir yn grŵp agored i niwed (oedolion a/neu blant) neu os yw'r swydd wedi'i hesemptio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, rhaid i chi egluro o'r camau recriwtio cyntaf a thrwy gydol y broses fod gennych chi'r hawl i weld eu cofnodion troseddol ac y byddwch chi'n gofyn am wiriad gan y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. Bydd ceisiadau am wybodaeth o'r fath yn dilyn Cod Ymarfer y DBS ac yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi diogelu a allai fod gan y mudiad.

---

Yn hytrach na chanolbwyntio ar eu hanaddasrwydd, amlygwch eu sgiliau a'u priodweddau a chyfeiriwch nhw at eu canolfan gwirfoddoli agosaf. Gweler y Daflen Wybodaeth:
**4.1 Meddwl am Wirfoddoli**

Rhaid i chi hefyd gael polisi ar recriwtio cyn-droseddwyr. Gellir cael rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan Llywodraeth y DU.

Rhaid hefyd gwneud y gwirfoddolwr yn ymwybodol o'r ffaith na fydd yn gallu gweithio gyda grwpiau agored i niwed mewn gweithgaredd a reoleiddir os yw wedi'i wahardd gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS) (Saesneg yn unig)

Hybwch bobl i danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r DBS
Gwasanaeth Diweddaru'r DBS

## Ffurflenni Cais Gwirfoddolwyr

Os byddwch chi'n penderfynu defnyddio ffurflen gais gwirfoddolwyr, eglurwch pa wybodaeth sydd arnoch ei hangen a pham rydych chi ei hangen. Cadwch y ffurflen mor syml â phosibl. Ystyriwch beth allwch chi ei wneud i'r ddogfen i alluogi pobl â gwahanol anghenion cymorth i ymgeisio.

**Noder**: diwrnodau agored lle gall gwirfoddolwyr profiadol helpu pobl i lenwi'r ffurflen gais (bwysig iawn i'r rheini â phroblemau llythrennedd neu le nad Saesneg yw eu mamiaith).

Yn hytrach na chanolbwyntio ar eu hanaddasrwydd, amlygwch eu sgiliau a'u priodweddau a chyfeiriwch nhw at eu canolfan gwirfoddoli agosaf. Am ragor o wybodaeth ewch i:
wefan Gwirfoddoli Cymru

## Cyfweld/Dod i adnabod eich gwirfoddolwyr

Gall y gair 'cyfweliad' fod yn frawychus iawn, ac oni bai bod angen i chi gynnal cyfweliad ffurfiol, bydd dweud 'dewch i mewn am sgwrs' neu 'dewch i siarad â ni' yn gwneud i ddarpar wirfoddolwyr deimlo'n fwy cysurus.

Pan fyddwch chi'n cwrdd â darpar wirfoddolwr, efallai yr hoffech chi roi sylw i'r meysydd canlynol:

- Beth wnaeth ei ddenu i'ch mudiad
- Pa brofiad allai fod ganddo, gan gynnwys unrhyw brofiad bywyd
- Pa sgiliau, gwybodaeth a diddordebau perthnasol sydd ganddo, os unrhyw beth
- A oes unrhyw ystyriaethau iechyd neu anghenion cymorth sy'n berthnasol i'w wirfoddoli sydd angen addasiadau neu newidiadau rhesymol
- Beth yw ei ddisgwyliadau posibl a beth mae'n gobeithio ei gael o wirfoddoli
- Pa amserau/diwrnodau y mae'n debygol o fod ar gael

## Cynefino

Unwaith rydych chi wedi recriwtio eich gwirfoddolwyr, bydd angen i chi wneud yn siŵr eu bod yn cael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol. Gall cymorth olygu llawer o bethau, ac yn aml, bydd sesiwn gynefino wedi'i threfnu'n dda a phecyn gynefino yn rhoi'r cymorth y bydd ar wirfoddolwyr ei angen i ddechrau. Dylai'r sesiwn gynefino gynnwys mwy na dim ond rhoi polisïau i wirfoddolwyr eu darllen a'u cyflwyno i staff a gwirfoddolwyr eraill.

Gall cael y broses gynefino'n gywir helpu eich mudiad i gadw ei wirfoddolwyr am hirach a sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael profiadau cadarnhaol a gwerthfawr.

Pan fydd gwirfoddolwyr yn dechrau gyda'ch mudiad, efallai yr hoffech chi wneud y canlynol:

- Eu croesawu i'w lle gwirfoddoli, eu dangos o amgylch y safle, y swyddfa, y gymuned neu, os yw'n lleoliad rhithwir, eu dangos o amgylch y gofodau rhithwir y byddant yn eu defnyddio.
- Dangos iddyn nhw ym mhle fyddant yn gwirfoddoli (gall hyn fod y lle y byddant yn eistedd o fewn swyddfa, gofod rhithwir ble byddant yn treulio'r rhan helaeth o'u hamser neu'n fan awyr agored y byddant yn gofalu amdano). Dangoswch iddynt ble allant ddod o hyd i'r offer neu'r cyfarpar diogelu personol (PPE) y gallai fod arnyn nhw eu hangen.
- Edrych ar eu hanghenion ac unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen, gan gynnwys arferion diogel ac iach yn eu lle gwirfoddoli.
- Sicrhau bod y gwirfoddolwr yn gwybod o ble i gael lluniaeth a ble mae'r toiledau a'r man awyr agored. Anogwch nhw i gael egwyl yn rheolaidd.
- Dod o hyd i ffyrdd o'u cyflwyno i'ch timau staff a gwirfoddolwyr presennol a fydd yn teimlo'n rhwydd i'r gwirfoddolwyr.
- Egluro at bwy allant fynd os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau neu broblemau. Gall trefnu i nifer o gydweithwyr fod ar gael i'r gwirfoddolwyr sicrhau bod y gwirfoddolwr yn teimlo'n gysurus i fynd at yr unigolion hyn.
- Egluro pryd a sut i hawlio treuliau gwirfoddolwr, darparu'r ddogfennaeth gywir.
- Egluro polisi eich mudiad ar wirfoddolwyr sy'n defnyddio adnoddau'r mudiad at ddefnydd personol (e.e. defnyddio'r rhyngrwyd yn y swyddfa)
- Trefnu amser i'r gwirfoddolwyr gysgodi neu siarad â gwirfoddolwyr profiadol eraill neu aelod staff cyflogedig
- Cael gafael ar yr holl wybodaeth bwysig arall sydd ei hangen i sicrhau bod y gwirfoddolwyr yn cadw'n ddiogel ac yn gysurus yn ystod eu hamser yn gwirfoddoli gyda chi, fel manylion cyswllt mewn argyfwng

- Eu hatgoffa o'u rôl wirfoddol, beth mae'n ei chynnwys a ddim yn ei chynnwys. Caniatewch amser am gwestiynau ac i sicrhau eu bod yn deall

Pwyntiau anffurfiol yw'r rhain, ond maen nhw'n bwysig gan eu bod yn helpu gwirfoddolwyr i deimlo'n fwy cysurus o fewn eich mudiad. Byddai'n well gadael polisïau a gweithdrefnau'r mudiad hyd nes y bydd y gwirfoddolwyr wedi mynd drwy'r pethau ymarferol bob dydd. Drwy wneud pethau fel hyn, bydd y gwirfoddolwyr yn teimlo'n fwy cysurus a medrus pan fyddwch chi'n symud ymlaen at feysydd mwy cymhleth.

Erbyn hyn, dylai gwirfoddolwyr deimlo'n fwy hyderus i ofyn i chi egluro unrhyw beth nad ydynt yn eu llwyr ddeall. Pan fyddwch chi'n symud i faterion ffurfiol, sicrhewch fod y gwirfoddolwyr yn deall y materion drwy fynd drwy bolisïau a gweithdrefnau gyda nhw.

## Gallai'r materion mwy ffurfiol hyn gynnwys:

- Polisïau a gweithdrefnau eich mudiad
  e.e. cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch, diogelu
- Hanes, ethos, diwylliant y mudiad
- Seilwaith y mudiad
- Ymddygiadau a gwerthoedd y mudiad
- Sut i ymdrin â chwynion a meysydd o bryder
- Cytundeb y gwirfoddolwr

Efallai byddai'n ddefnyddiol i'r gwirfoddolwr pe bai'r wybodaeth a roddir iddo'n cael ei gadw mewn llawlyfr neu becyn.

Bydd gweddill y cyfnod cynefino'n cael ei dreulio ar hyfforddiant parhaus a rhoi cynnig ar rai tasgau gwirfoddoli. Bydd hyd a dyfnder y cyfnod cynefino yn dibynnu ar y rôl a lefel yr adnoddau sydd ar gael.

Pe baech chi'n gweithio'n agos gyda'r gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn, byddai'n rhoi darlun gwell i chi o sut maen nhw'n gweithio, pa gymorth fydd eu hangen arnynt a'r hyn y maen nhw'n ceisio'u cael o'r rôl.

## Hawliau a Chyfrifoldebau Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddoli'n broses ddwy ffordd. Er bod gwirfoddolwyr yn dod â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad i'r mudiad, gall mudiad addysgu sgiliau newydd i wirfoddolwyr hefyd.

Dyma rai hawliau a chyfrifoldebau awgrymedig, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn a gallech ddewis rai eich hun.

Mae gan wirfoddolwyr yr hawl i:

- Wybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt,
  e.e. cod ymddygiad
- Cael Llwybrau cymorth wedi'u nodi'n glir
- Cael mynediad at reolwr penodol
- Cael eu diogelu gan yswiriant
- Cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
- Gwybod eu hawliau
- Cael treuliau parod wedi'u talu
- Cael eu hyfforddi a'u paratoi ar gyfer eu rôl
- Peidio â dioddef gwahaniaethu neu aflonyddwch
- Cael cymorth a chyfleoedd wedi'u cynnig iddynt er mwyn datblygu yn y rôl
- Peidio â chymryd lle gweithiwr cyflogedig, ond i ategu'r rôl ac ychwanegu gwerth ati
- Gwirfoddoli mewn amgylchedd diogel

Gall mudiadau ddisgwyl i wirfoddolwyr:

- Fod yn ddibynadwy
- Bod yn bobl y gellir ymddiried ynddynt
- Parchu cyfrinachedd
- Manteisio i'r eithaf ar hyfforddiant a chymorth
- Cyflawni tasgau sy'n adlewyrchu amcanion, gwerthoedd ac ymddygiadau'r mudiad
- Gweithredu o fewn canllawiau, cylch gwaith a rôl gytunedig
- Parchu polisïau a gweithdrefnau'r mudiad

## Geirdaon

Bydd y mwyafrif o fudiadau yn gofyn i wirfoddolwyr ddarparu dau eirda. Mae hyn yn hanfodol, yn enwedig pan mae'r mudiad yn gweithio gyda phobl sy'n agored i niwed, er enghraifft, plant, oedolion mewn gwasanaethau a reoleiddir ac ati.

Mewn sefyllfaoedd o'r fath, efallai na fydd gofyn am eirda gan ffrind neu aelod o'r teulu'n briodol, ond bydd gofyn am eirda gan gyflogwr blaenorol, tiwtor neu athro'n ddelfrydol.

Gall darparu geirdaon fod yn anodd i'r rheini sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, pobl ifanc ag ychydig iawn o brofiad gwaith neu'r rheini sy'n gwirfoddoli fel rhan o'u hadferiad - ystyriwch beth fyddai'n dderbyniol i'ch mudiad.

Wrth ofyn am eirdaon, nodwch pa wybodaeth rydych chi ei hangen yn glir, fel dibynadwyedd, prydlondeb, gonestrwydd, gallu trafod arian, ymddygiad o amgylch pobl sy'n agored i niwed.

Gwnewch yn siŵr bod y ffurflen eirda yn fyr a chryno ac yn berthnasol i'r rôl – byddai'n ddefnyddiol cynnwys copi o ddisgrifiad y rôl y gwnaed cais amdani.

Er mwyn sicrhau bod y ffurflen yn cael ei dychwelyd yn brydlon, gellid ei throi'n holiadur digidol a'i hanfon ar e-bost. Dilynwch hyn â galwad ffôn os yw'n briodol.

## Gwybodaeth Bellach

**Cod Ymarfer i Wirfoddolwyr**
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**
https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Code-of-Practice-Cod-Ymarfer.pdf

**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr - Safonau (Saesneg yn unig)**
**Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr**
https://iiv.investinginvolunteers.org.uk/download-the-standard

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.